Dŵr Cymru Welsh Water

Linea
Fortran Road
St Mellons
Cardiff
CF3 0LT

Linea
Heol Fortran
Llaneirwg
Caerdydd
CF3 0LT

02920 740450
dwrcymru.com

Cwsmeriaid

20 Mawrth 2023

Annwyl Gwsmer

**Yr wybodaeth ddiweddaraf am ein cynlluniau ar gyfer gwaith trin dŵr ger Pontsarn**

Yn Dŵr Cymru, un o'n prif flaenoriaethau yw darparu cyflenwad o ddŵr yfed o'r radd flaenaf yn uniongyrchol i dapiau ein cwsmeriaid. Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn buddsoddi'n barhaus yn ein rhwydwaith.

Y llynedd, cyhoeddwyd bod angen i ni adeiladu gwaith trin dŵr newydd ger Pontsarn i gymryd lle tri gwaith trin dŵr cyfagos. Y tri yw gweithiau trin dŵr Llwyn Onn, Cantref a Pontsticill ac maent i gyd yn heneiddio. Pan wnaethom gyhoeddi ein cynlluniau, cynhaliwyd cyfnod ymgynghori anstatudol a oedd yn cynnwys digwyddiadau gwybodaeth yn yr ardal leol ynghyd ag ystafell ymgynghori rithwir a gwahoddwyd y gymuned leol i gynnig sylwadau ar ein cynlluniau. Hoffem ddiolch i bawb am roi o'u hamser i roi eu hadborth i ni.

Roedd yr adborth a gafwyd yn hynod ddefnyddiol, ac ers i ni gynnal yr ymgynghoriad anstatudol, rydym wedi bod yn adolygu'r adborth i sicrhau, lle bo'n bosibl, ei fod yn llywio ac yn llunio ein cynlluniau cyn i ni gyflwyno ein cais cynllunio. Yn wreiddiol roeddem wedi datgan ein bod eisiau cyflwyno ein cais tua diwedd 2022. Mae'r broses o adolygu'r adborth yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl ac rydym yn credu mai'r peth iawn i'w wneud yw caniatáu'r amser sydd ei angen i gwblhau'r adolygiad hwn, er mwyn sicrhau bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi cyn i'n cynlluniau gael eu cwblhau.

Roeddwn i felly eisiau ysgrifennu i'ch hysbysu ein bod yn dal i weithio ar ein cynlluniau, ac mae'n debygol na fydd gennym unrhyw wybodaeth bellach i'w rhannu gyda'r gymuned leol am y prosiect cyn yr hydref. Gallwn eich sicrhau y byddwn yn cynnal proses ymgynghori statudol lawn gyda'r gymuned leol cyn i unrhyw gais cynllunio gael ei gyflwyno. Mae hyn yn debygol o fod y flwyddyn nesaf a byddwn yn cysylltu ynghylch amseriad a manylion hyn yn nes at yr amser.

Rydym yn awyddus i sicrhau bod ein cynlluniau yn cydbwyso adborth y gymuned leol â'n hangen ni i wella cadernid a chapasiti ein seilwaith dŵr yn yr ardal, ac rydym o'r farn mai treulio mwy o amser yn datblygu'r cynlluniau hyn ymhellach yw'r ffordd iawn o wneud hyn.

Gobeithio bod y diweddariad hwn wedi bod yn ddefnyddiol ac yn y cyfamser, os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni yn cwmtafproject@dwrcymru.com. Byddem yn croesawu trafodaeth gyda chi a'r gymuned leol wrth i'n cynlluniau barhau i ddatblygu.

Yn gywir

Ian Boothroyd

Ian Boothroyd
Pennaeth Caffael Uniongyrchol ar gyfer Cwsmeriaid

We're not-for-profit. Every single penny we make goes back into looking after your water and environment. You can contact us in Welsh or English.

Rydym yn gwmni nid-er-elw. Mae pob ceiniog a wnawn yn mynd i ofalu am eich dŵr a'ch amgylchedd. Cysylltwch a ni yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Dŵr Cymru Cyf. (No./Rhif 2366777)
A limited Company registered in Wales:
Cwmni cyfyngedig wedi'i gofrestu yng Nghymru:

Linea, Fortran Road, St Mellons, Cardiff, CF3 0LT